# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Hydref 2019

Amser: 10.15 - 13.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5612

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | Dr Andrew Blick, King's College, Llundain<br>Dr Jack Simson Caird, Canolfan Rheol Gyfreithiol Bingham<br>Yr Athro Jo Hunt, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Michael Keating, Prifysgol Aberdeen<br>Professor Aileen McHarg, Prifysgol Durham<br>Professor Alan Page, Prifysgol Dundee<br>Akash Paun, Sefydliad y Llywodraeth<br>Dr Huw Pritchard, Canolfan Llywodraethiant Cymru<br>Professor Dan Wincott, Prifysgol Caerdydd<br>Professor Alison Young, Prifysgol Caergrawnt<br>Professor Michael Gordon, Ysgol y Gyfraith Lerpwl |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Rachael Davies (Dirprwy Glerc)<br><br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br><br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Carwyn Jones AC.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)452 - Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)448 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, yn ogystal ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 3.2 SL(5)450 - Rheoliadau Safonau Trapio heb Greulondeb (Cymru a Lloegr) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 4 Offerynnau a drafodwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun gwaith craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

### 4.1 SL(5)451 - Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 6 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru: Sesiwn dystiolaeth 3

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan banel o academyddion ac arbenigwyr pwnc fel rhan o'i ymchwiliad.